

COMISIWN Y GYMRAEG

Mae **Dyfodol i'r Iaith** yn croesawu'n frwd fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu Corff Cyhoeddus hyd-braich ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Bydd sefydlu Corff felly yn ein galluogi am y tro cyntaf i weithredu strategaeth gyfannol er adfywhau'r Gymraeg yn iaith genedlaethol ac i weithredu polisiau i'r diben yna ar draws y meysydd polisi. Byddai'n gallu arwain hyrwyddo a gweithredu mewn meysydd sy'n allweddol i'r Gymraeg megis y cartref, y gymuned, byd gwaith ac addysg. Bydd yn gallu rhoi sylw i effaith yr economi a thai ar yr iaith.

Dylai Corff felly

- gymryd cyfrifoldeb am weithredu strategaeth gyfannol er adfywhau'r Gymraeg yn iaith genedlaethol
- feddu ar arbenigedd o'r radd flaenaf ym maes cynllunio ieithyddol
- dyfeisio, cymeradwyo, cydlynu a chyllido amrywiaeth o fentrau i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg
- cydweithio'n agos â, a chynghori
 - Llywodraeth Cymru a'i holl adrannau Llywodraeth leol
 - Cyrff Cyhoeddus perthnasol megis Cyfoeth Naturiol Cymru
- cydweithio â chyrff perthnasol eraill megis Canolfan Dysgu Cymraeg, y Mentrau Iaith, yr Urdd ac ati
- bod yn rhydd i leisio'i barn yn ddiogfn ar faterion perthnasol i les y Gymraeg
- meddu ar adnoddau dynol ac ariannol digonol i gyflawni'i chenhadaeth yn effeithiol

Pryderon

Mae **Dyfodol** yn rhannu pryder Llywodraeth Cymru ynghylch natur orfiwrocraidd y Comisiynydd Iaith.

Fodd bynnag rhaid diogelu trefn reoleiddio rymus ac effeithiol i ddiogelu a datblygu ymhellach hawliau siaradwyr Cymraeg a gwneud y drefn yn symlach ac yn fwy hwylus. Y dewis gorau fyddai cadw'r Comisiynydd presennol yn sefydliad ar wahân. Yr ail ddewis fyddai gwarchod pwerau Comisiynydd rheoleiddio o fewn i'r 'Comisiwn' newydd. Rydyn ni am weld dwyn o leiaf rannau o'r sector preifat i fewn i gwmpas deddfwriaeth y Gymraeg.

Bydd angen sicrhau hyn, a thrafod materion pwysig eraill, wrth ddilyn rhawd Bil newydd y Gymraeg drwy'r Cynulliad Genedlaethol.

Cyfle Hanesyddol

Serch y pryderon dilys am rai agweddau o fwriadau Llywodraeth Cymru, mae **Dyfodol i'r Iaith** o'r farn bod y bwriad i sefydlu Corff hyd-braich grymus yn gyfle i gynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg am y tro cyntaf erioed.

Byddai hyn yn diogelu statws y Gymraeg ond ar yr un pryd yn rhoi pwyslais newydd ar weithredu creadigol a fydd yn ysbrydoli miloedd o bobl i ddysgu'r Gymraeg a'i defnyddio yn eu cartrefi, eu cymunedau ac ym myd gwaith.

Byddai sefydlu Corff felly yn creu modd i weithredu strategaeth gyfannol i'r Gymraeg a'i hybu a'i hyrwyddo ym mhob dull a modd.

www.dyfodol.net

TOB
DYFO

THE WELSH LANGUAGE COMMISSION

Dyfodol i'r laith warmly welcomes the Welsh Government's intention to establish an arm's length Public Body for the Welsh Language.

The establishment of such a body would enable us for the first time to develop a comprehensive strategy for the revitalisation of Welsh as a national language and to implement policies to that effect across the policy areas. It could lead promotion and action in key areas for the Welsh language such as the home, the community, education and the workplace. It can pay attention to the effect of the economy and housing on the language.

Such a Body should

- take responsibility for implementing a comprehensive strategy for the revitalisation of Welsh as a national language
- possess top-quality expertise in the field of language planning
- devise, approve, coordinate and fund various initiatives to promote the use of the Welsh language
- work closely with
 - the Welsh Government and its departments
 - local government
 - public bodies such as Natural Resources Wales
- collaborate with relevant bodies such as the Welsh Language Learning Centre, the Mentrau Iaith, the Urdd etc
- be free to express its opinion fearlessly on issues relevant to the Welsh language
- have sufficient human and financial resources to fulfil its mission effectively

Concerns

Dyfodol shares the Welsh Government's concerns about the overly bureaucratic nature of the current Welsh Language Commissioner.

However a powerful and effective regulatory system must be maintained to protect and further enhance the rights of Welsh speakers, while making that system simpler and easier to apply. The best option would be to retain the current Commissioner as a separate body. The alternative would be to protect the Commissioner's regulatory powers within the new 'Commission'. We want to see at least some parts of the private sector brought within the compass of Welsh-language legislation.

This will need to be ensured, as indeed other important issues will need to be addressed, as the new Welsh Language Bill follows its course through the National Assembly.

A Historic Opportunity

Despite the valid concerns about certain aspects of the Welsh Government's plans, **Dyfodol i'r laith** believes that the intention to establish a powerful arm's length Body provides an opportunity for the first time ever to plan comprehensively for a prosperous future for the Welsh language.

This would guarantee the official status of the language while placing a new emphasis on creative action which could inspire thousands to learn the language and use it in their homes, communities and workplaces.

www.dyfodol.net

TO
DYFO